**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23ain Hydref 2006**

## YR YMATEB I'R YMGYNHORIAD AR GYNLLUN LLEIHAU RISG DRAFFT YR AWDURDOD 2007-08

**Adroddiad gan Simon Smith**
**Y Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub i argymhellion y Panel Gweithredol mewn perthynas â Chynllun Lleihau Risg drafft yr Awdurdod ar gyfer 2007/08 ac i eiriad ymateb yr Awdudod i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

## Cyflwyniad

**2.** Cymeradwyodd yr Aelodau Gynllun Lleihau Risg drafft yr Awdurdod 2007-08 at ddiben ymgynhori ar 19eg Mehefin 2006.

**3.** Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yngymerwyd â phroses eang o ymgynghori a barodd am 12 wythnos. Derbyniwyd ymatebion trwy gydol y cyfnod hwn hyd at y dyddiad cau, sef 29ain Medi 2006.

**Gwybodaeth**

**4.** Cysylltwyd yn gyntaf â thros 800 o unigolion a sefydliadau ym mis Gorffennaf er mwyn rhoi gwybod iddynt sut i weld yr e-fersiwn o'r Cynllun Lleihau Risg drafft ar y wefan, a'u hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Yna ym mis Awst anfonwyd llythyr arall atynt, gan amgáu copi argraffedig o'r Cynllun drafft atynt.

**5.** Cynhaliwyd cyfarfodydd briffio ar gyfer uwch wleidyddion yng Ngogledd Cymru, a thrwy'r cyfryngau rhyddhawyd datganiadau i'r wasg gyda'r bwriad o annog ymateb.

**6.** Trwy'r systemau cyfathrebu mewnol anfonwyd negeseuon at aelodau'r staff yn eu hannog i gymryd rhan, ac anfonwyd copiau papur o'r Cynllun drafft i bob un o safleoedd y Gwasanaeth.

**7.** Roedd fersiwn electronig ar gael ar wefan yr Awdurdod: dangosodd y monitro arferol fod 60 o ymweliadau wedi bod â'r adran hon yn ystod y 12 wythnos.

**8.** Derbyniwyd cyfanswm o 16 o ymatebion ysgrifenedig: 1 oddi wrth aelod o awdurdod tân, 2 oddi wrth gynghorwyr sir, 4 oddi wrth Brif Swyddogion Tân presennol neu wedi ymddeol, 1 oddi wrth Aelod Cynulliad, 1 oddi wrth Aelod Seneddol, 1 oddi wrth aelod o Dŷ'r Arglwyddi, 3 oddi wrth Gynghorau Tref, 2 oddi wrth gyrff cynrychioladol, ac 1 oddi wrth gyfarwyddwr cwmni gwarchod rhag tân.

**9.** Mae'r lefel yma o ymateb yn cymharu â'r 34 a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyntaf ar y Cynllun Integredig Rheoli Risg/Cynllun Gweithredu ym mis Hydref 2003, 3 i'r ail yn 2004, a 36 i'r trydydd yn 2005.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**10.** Dadansoddwyd pob ymateb. Mae'r sylwadau a gyflwynwyd i'w gweld yn yr Atodiad, ynghyd ag ymateb drafft gan yr Awdurdod. Cymeradwywyd yr ymateb drafft gan y Panel Gweithredol ar Hydref 9fed.

**11.** Roedd mwyafrif yr ymatebion a dderbyniwyd eleni yn gefnogol o'r Awdurdod, gydag amryw yn uniongyrchol ganmoliaethus.

**12.** Tra roedd rhai ymatebion yn ceiso eglurhad pellach ac esboniad ar y bwriadau, roedd eraill yn cynnig syniadau neu fesurau ychwanegol.

**13.** Er i rai ymatebion gyflwyno syniadau gwahanol, prin oedd y rhai a anghytunodd yn uniongyrchol â'r hyn mae'r Awdurdod yn ei fwriadu ar gyfer 2007-08.

**14.** Wedi ystyried yr ymatebion dderbyniwyd penderfynodd y Panel Gweithredol argymell y dylid mabwysiadu Cynllun Lleihau Risg 2007-08 fel y'i lluniwyd, yn amodol ar gywiro mân gywiriadau golygyddol.

**Argymhellion**

**15.** Bod yr Aelodau yn:

**15.1** nodi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Lleihau Risg 2007-08;
**15.2** cadarnhau argymhelliad y Panel Gweithredol i gymeradwyo, yn dilyn gwneud mân gywiriadau golygyddol, fabwysiadu'r Cynllun Lleihau Risg 2007-08 fel y'i lluniwyd;
**15.3** cadarnhau argymhelliad y Panel Gweithredol i ymateb i'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd ar y Cynllun Lleihau Risg drafft 2007-08 fel yr ymddangosant yn Atodiad 1.

MEWN CYFUNDEB Y GELWAIST